

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar

Hydref 2021

Cyflwyniad

1. Ar 9 Gorffennaf 2021, gosododd Llywodraeth Cymru [Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#) (Memorandwm) (PDF 146KB) ar gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar gerbron y Senedd. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at [Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig](#), y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#), a'r [Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), gan nodi mai'r [terfyn amser ar gyfer adrodd oedd 21 Hydref 2021](#). (PDF 42.1KB)

Cefndir

2. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 2 Mawrth 2021, ac fe'i noddir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae teitl hir y Bil yn nodi mai ei ddiben yw gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu'r Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar a dibenion cysylltiedig.

3. Gwnaed y Bil yn amodol ar gynnig cario drosodd ar 23 Mawrth 2021 a chwblhaodd Tŷ'r Cyffredin ei drafodaeth o'r Bil ar 7 Mehefin 2021. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin 2021, ac ar hyn o bryd nid yw'r dyddiad ar gyfer yr ail ddarlleniad wedi cael ei gadarnhau.

4. Mae Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:



"to establish the Advanced Research and Invention Agency (ARIA) as a statutory corporation. ARIA is a new type of funding body for conducting, commissioning and supporting ambitious scientific research with a tolerance to failure."

Trosolwg o'r Bil

5. Mae'r **Nodiadau Esboniadol** sy'n cyd-fynd â'r Bil yn egluro fel a ganlyn:

As the R&D Roadmap sets out, ARIA will champion bold and transformative R&D which has a high chance of failure but can produce the greatest long-term rewards. ARIA "will back breakthrough technologies and basic research by experimenting with new funding models across long-term time horizons" and "invest in new ideas and empower researchers to deliver radical technological advancements".

6. Er mwyn cyflawni'r uchod, mae Llywodraeth y DU yn dadlau bod yn rhaid i'r Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar fod yn gorff corfforedig ar wahân (y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i'w sefydlu) sydd y tu allan i **Ymchwil ac Arloesi yn y DU** (UKRI), a gedwir yn ôl, sef prif gorff cyllido ymchwil y DU sy'n ariannu gwaith ymchwil ar draws gwledydd y DU.

7. Sefydli'r Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar yng nghyd-destun **nod uchelgeisiol Llywodraeth y DU** o gynyddu'r gwariant cyhoeddus ar ymchwil a datblygu i £22 biliwn erbyn 2024/25, er mwyn sicrhau bod 2.4 y cant o'r Cynnyrch Domestig Gros yn cael ei fuddsoddi mewn gwaith ymchwil a datblygu bob blwyddyn erbyn 2027.

Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru

8. Nid yw ymchwil ac arloesi wedi'i gadw yn ôl ac mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ariannu'r gwaith hwn ochr yn ochr â'i gilydd. Er bod Llywodraeth Cymru yn dadlau yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol bod ganddi'r pwerau i greu corff tebyg i'r Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, nid oes corff o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd.

9. Yn lle hynny, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ymchwil yn cael ei ddyrannu'n bennaf i ddau gorff:

- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sy'n dyrannu cyllid ar gyfer gwaith ymchwil ac arloesi i brifysgolion yng Nghymru (tua £85 miliwn ar gyfer gwaith ymchwil yn 2020/21), ac a gyhoeddodd **Y Weledigaeth ar gyfer Cymru** ym mis Mai 2019.

- Ymchwil lechyd a Gofal Cymru sy'n ariannu ac yn goruchwylio canolfannau ymchwil feddygol Cymru, unedau ymchwil, unedau treialon clinigol, grwpiau cymorth seilwaith (tua £42 miliwn ar gyfer gwaith ymchwil yn 2020-21).

10. Yn ogystal â hyn, gall y rhan fwyaf o sefydliadau ymchwil Cymru hefyd gael gafael ar gyllid gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU a'r Cynghorau Ymchwil sy'n rhan ohono, yn bennaf drwy brosesau cystadleuol. Cyllideb Ymchwil ac Arloesi yn y DU yw £8 biliwn ar gyfer 2021-22, heb derfyn damcaniaethol o ran faint o hyn y gallai sefydliadau Cymru ei ennill (ond mewn gwirionedd, nid yw Cymru yn ennill ei chyfran ar sail poblogaeth o'r cyllid hwn (tua 5 y cant)).

11. Cynhaliodd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau y Bumed Senedd ymchwiliad i ymchwil ac arloesi yng Nghymru, gan argymhell ym mis Ebrill 2019 y dylid gwneud mwy "i gytuno ar weledigaeth a'i chyfleu ar gyfer pob gweithgaredd ymchwil ac arloesedd yng Nghymru", a bod "angen i ymchwil ac arloesedd yng Nghymru gael mwy o le mewn trafodaethau ar lefel y DU a bod yn fwy gweladwy." Dywedodd hefyd y dylai mwy o arian fod ar gael i CCAUC i weithredu argymhellion yr Athro Graeme Reid yn ei adolygiad o waith ymchwil ac arloesi a ariennir gan Llywodraeth Cymru. Roedd adolygiad Reid yn dadlau y dylai Cymru geisio integreiddio mwy â system y DU a dylanwadu arni.

Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

12. Bwriedir i'r Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar fod yn sefydliad ar gyfer y DU gyfan, yn debyg i Ymchwil ac Arloesedd yn y DU a'i Gynghorau Ymchwil. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i wneud pwerau ariannu yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar (ar gyfer gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi) yn fater a gedwir yn ôl drwy ddiwygio paragraff 87 o Adran C11 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel bod yr Asiantaeth yn eistedd ochr yn ochr ag Ymchwil ac Arloesi yn y DU a'r Cynghorau Ymchwil.

13. Mae'r Memorandwm yn nodi bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu ar yr un telerau neu delerau tebyg mewn perthynas â Chymru. Mae prif bwnc y Bil, sef ymchwil ac arloesi yn faes datganoledig o'r gyfraith (yn y Bil, defnyddir y termau 'innovation' ac 'invention', ond gan mai 'innovation' a ddefnyddir amlaf yn gyffredinol, dyna'r term a ddefnyddir yma, sef 'arloesi' yn Gymraeg).

14. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Cymalau 1-11 ac Atodlenni 1-3 i'r Bil – nodir y rhesymau ym mhob achos yn y Memorandwm. Darpariaethau safonol yw'r Cymalau sy'n weddill, sef Cymalau 12-15, gan gynnwys dehongli, teitl byr, cychwyn

a rhychwant. Ac eithrio Cymal 5, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a restrir yn y Memorandwm.

15. Yn achos Cymal 5 – cyfarwyddydau diogelwch gwladol – mae'r Memorandwm yn esbonio y gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddydau i'r Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar ynghylch arfer ei swyddogaethau os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod angen hynny er budd diogelwch gwladol. Rhaid i'r Asiantaeth gydymffurfio. Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y ddarpariaeth yn ymwneud â diogelwch gwladol, sy'n fater a gedwir yn ôl. Dywed Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad, gan fod y ddarpariaeth hon yn gweithredu ar y cyd â chymalau sylweddol y Bil a bod gan y Senedd gymhwysedd i gyfarwyddo corff a sefydlwyd gan y Senedd yng Nghymru at yr un dibenion. Mae'n nodi: "Nid yw'r cymal hwn yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol, yn hytrach mae'n ymwneud â rhoi cyfarwyddydau."

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y DU

16. Mae paragraff 16 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau pam nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig:

"Bydd ARIA yn gorff newydd sydd â chylch gwaith ledled y DU gyda'r potensial i ariannu ymchwil a gwaith dyfeisio blaengar ledled y DU mewn modd a ddyfernir yn gystadleuol yn seiliedig ar deilyngdod. Nid yw'n disodli nac yn dyblygu unrhyw gorff presennol y DU a gadwyd yn ôl nac unrhyw gorff a sefydlwyd yng Nghymru, a byddai'n cynnig mwy o gyfle ar draws y DU."

17. Fodd bynnag, nodir hefyd y cafeat isod:

"mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau ym Mil ARIA o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nid yw'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn darparu ar gyfer unrhyw ddylanwad ar weithgareddau ARIA gan y llywodraethau datganoledig."

Safbwynt Llywodraeth Cymru

18. Dadl Llywodraeth Cymru yw bod y "rhan fwyaf" o'r darpariaethau ym Mil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd' a bod y Bil:

"...yn ceisio cadw sawl pŵer yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU o ran ymchwil ac arloesi yng Nghymru ac ystyriwn hyn i fod yn annerbyniol."

19. Am y rheswm hwn, ac oherwydd nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer cynnwys gwledydd datganoledig y DU yn y gwaith o lywodraethu'r Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar (pan fo darpariaeth o'r fath yn gymwys i Ymchwil ac Arloesi yn y DU, a gedwir yn ôl), dywed Llywodraeth Cymru na all argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil. Mae Llywodraeth Cymru yn egluro'n llawn:

"[ni allwn argymhell rhoi cydsyniad] am ddau reswm: yn gyntaf, mae cadw pwerau newydd yn ôl ar gyfer Senedd y DU mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi yn annerbyniol; yn ail, nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynnwys y llywodraethau datganoledig yn y gwaith o lywodraethu ARIA. Rwyf wedi cyfleu hyn i'r Gweinidog BEIS a gan nad yw ein pryderon wedi'u hystyried hyd yma, argymhellaf nad yw'r Senedd yn rhoi ei chydsyniad mewn perthynas â'r Bil hwn ar ei ffurf bresennol."

20. Mae Gweinidog yr Economi hefyd yn nodi yn y Memorandwm:

"Yn dilyn gosod y cynsail hwn, sef cydnabod yr angen am aelodau ar fwrdd UKRI sy'n meddu ar wybodaeth am Ymchwil a Datblygu yng Nghymru o dan y trefniadau datganoledig, nid wyf yn credu ei bod yn afresymol disgwyl rhoi darpariaeth debyg ar waith ar gyfer ARIA ac o ystyried bod ARIA yn darparu ar gyfer Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU i fod yn aelod. Byddaf yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gyflwyno diwygiadau o'r fath."

Barn y Pwyllgor

21. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ymhelaethu ar y rhesymau a nodir yn y Memorandwm ynghylch pam yr ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Cymal 5 o'r Bil – cyfarwyddydau diogelwch gwladol.

22. Mae'r Pwyllgor yn ategu'r farn hon, a fynegwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn y Bumed Senedd, sef ei fod yn cefnogi cynrychiolaeth i'r gweinyddiaethau datganoledig ac i Gymru ar fwrdd Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio newydd.

23. Nes iddo gael y wybodaeth y gofynnir amdani uchod, nid yw'r Pwyllgor mewn sefyllfa i argymhell a ddylai'r Senedd dderbyn ynteu wrthod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm hwn.